Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad dilynol o Wasanaethau Gwastraff – Cyngor Sir Caerfyrddin

Blwyddyn archwilio: 2023–24

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4536A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 4

Ein dyletswyddau archwilio 4

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn 4

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad 4

Yr hyn a ganfuwyd gennym 4

Canfyddiadau manwl 5

# Adroddiad cryno

## Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

### Ein dyletswyddau archwilio

1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

2 Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gallai lywio astudiaeth ar wella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004 hefyd, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Adolygiad dilynol o'r camau y mae'r Cyngor wedi eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a gyhoeddwyd gennym yn ein hadroddiad yn 2021 yw'r adroddiad hwn—Adolygiad o Wasanaethau Gwastraff—Cyngor Sir Gaerfyrddin.

## Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

4 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliad gyda'r rheolwr gwasanaeth perthnasol. Cyfyngwyd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2024.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Canfuom fod y Cyngor wedi bodloni'r holl argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad yn 2021. Roedd yr wyth argymhelliad yn yr adroddiad yn cwmpasu trefniadau yn y meysydd canlynol: y gwasanaeth gwastraff gardd, Cwm Environmental Ltd (CWM)[1],
tipio anghyfreithlon, a strategaeth wastraff y Cyngor. Nodir ein canfyddiadau manwl yn **Arddangosyn 1**.

6 Nid ydym wedi cyhoeddi unrhyw argymhellion ychwanegol yn yr adroddiad hwn.

[1] Y cwmni y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaredu gwastraff.

# Canfyddiadau manwl

**Arddangosyn 1: canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn**

| **Argymhellion o'n hadroddiad yn 2021 a'n canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn** |
|---|
| **Argymhelliad 1**—Dylai'r Cyngor nodi mesurau perfformiad ar gyfer ei wasanaeth gwastraff gardd a sicrhau bod yr uwch-swyddogion a'r Aelodau yn goruchwylio'r perfformiad yn y maes hwn yn effeithiol. |
| **Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau perfformiad a chreu dangosfwrdd gweithredol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff gardd. Mae hyn yn cryfhau'r broses o oruchwylio perfformiad y gwasanaeth a wneir gan reolwyr.<br>• Cynhwysir y mesurau is-adrannol newydd ar system rheoli gwybodaeth perfformiad (PIMS) y Cyngor. Mae swyddogion ac Aelodau Etholedig yn gallu cael mynediad at y system hon.<br>• Mae'r Cyngor wedi gwella'r mesurau perfformiad y mae'n eu defnyddio i sicrhau bod ei wasanaeth gwastraff gardd yn cael ei oruchwylio'n fwy effeithiol. |
| **Argymhelliad 2**—Dylai'r Cyngor sicrhau bod cofrestr risgiau ar gyfer CWM. |
| **Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**<br>• Mae cofrestr risgiau ar gyfer CWM erbyn hyn. Cyflwynir y gofrestr risgiau i Fwrdd Cyfranddalwyr CWM a Bwrdd Cwmni CWM yn flynyddol.<br>• Ers mis Mehefin 2024, mae trefn benodol bellach ar gyfer adrodd newidiadau sylweddol mewn graddfeydd risgiau. Mae'n rhaid i Reolwr Gyfarwyddwr CWM roi gwybod i Fwrdd y Cwmni a Bwrdd y Cyfranddalwyr ar unwaith. Bydd Bwrdd y Cyfranddalwyr yn ystyried effaith y newid ac yn |

| Argymhellion o'n hadroddiad yn 2021 a'n canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn |
| --- |
| penderfynu pa rai o'r camau canlynol i'w cymryd: ymgynnull cyfarfod arbennig o Fwrdd y Cyfranddalwyr, adrodd i'r Cabinet, neu adrodd i'r Cyngor llawn.<br>• Erbyn hyn, mae trefniadau gwell ar gyfer dogfennu a rheoli risgiau yn CWM. |
| **Argymhelliad 3**—Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn goruchwylio perfformiad a risgiau cysylltiedig CWM yn effeithiol, gan gynnwys mewn pwyllgorau perthnasol megis trosolwg a chraffu. |
| **Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**<br>• Mae Rheolwr Gyfarwyddwr CWM yn cyflwyno Adroddiad Cynnydd a Chynllun Busnes CWM i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Le, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn flynyddol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried hyn yn eitem gyfyngedig.<br>• Cyflwynwyd Cynllun Busnes 2023–26 CWM gerbron y cyn-Gabinet ar 11 Medi 2023. Disgwylir i'r Cynllun fynd gerbron y cyn-Gabinet eto ym mis Hydref 2024.<br>• Ni chyflwynwyd y gofrestr risgiau gerbron y Cabinet, ond mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys adrannau o'r enw 'Materion Allweddol a Heriau' a 'Chyfleoedd'. Mae'r ddwy adran yn rhestru materion ac effeithiau posibl a nodwyd, ac ymatebion arfaethedig. Mae hyn yn golygu y gall Aelodau y Cabinet weld y risgiau a'r materion posibl a nodir gan CWM.<br>• Mae trefniadau y Cyngor ar gyfer goruchwylio gweithgareddau CWM wedi gwella. |
| **Argymhelliad 4**—Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun wrth gefn ar gyfer ymdrin ag unrhyw ganlyniadau os bydd CWM yn dod yn annichonadwy yn ariannol. |
| **Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad** |

**Argymhellion o'n hadroddiad yn 2021 a'n canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn**

- Mae CWM yn gwmni sy'n cydymffurfio â Teckal[2]. Mae hyn yn golygu ei fod yn cael ei reoli gan y Cyngor ac yn derbyn o leiaf 80% o'i incwm sy'n deillio o'r gwasanaethau a ddarperir i'r Cyngor.
- Nid oes gan y Cyngor gynllun wrth gefn ysgrifenedig pe byddai CWM yn dod yn annichonadwy yn ariannol. Gan ei fod yn gyfranddaliwr, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ystyried ei ddewisiadau a gallai ddarparu cymorth ariannol tymor byr; disodli neu ychwanegu at reolaeth y cwmni; camu i mewn a darparu'r gwasanaethau yn uniongyrchol; neu ganiatáu i'r gwasanaeth gystadlu am y contract.
- Mae'r Cyngor wedi ystyried mater CWM yn mynd yn annichonadwy yn ariannol ac yn deall y camau efallai y bydd angen iddo eu cymryd pe byddai'r sefyllfa hon yn codi.

**Argymhelliad 5**—Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu cynllun cytunedig i fynd i'r afael yn gynaliadwy â'r nifer uchel o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon.

**Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**

- Sefydlodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Le, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd y Cyngor grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r modd y rheolir tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Diben y grŵp oedd nodi gwelliannau posibl o ran rheoli tipio anghyfreithlon. Cyfarfu'r Grŵp naw gwaith rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mehefin 2023. Adroddodd y grŵp ei ganfyddiadau i'r prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 21 Gorffennaf 2023 ac i'r Cabinet ar 16 Hydref 2023. Gwnaeth adroddiad y grŵp saith argymhelliad i'r Cabinet eu hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu strategaeth a gwella'r broses gyfredol ar gyfer adrodd a chofnodi tipio anghyfreithlon. Cymeradwyodd y Cabinet yr holl argymhellion hyn. Disgwylir i'r grŵp gorchwyl a gorffen roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu am y cynnydd ar 20 Tachwedd 2024.
- Mae defnydd y Cyngor o grŵp gorchwyl a gorffen craffu i edrych ar wella'r broses o reoli tipio anghyfreithlon yn ymateb cadarnhaol i'n hargymhelliad.

**Argymhelliad 6**—Dylai'r Cyngor adrodd yn gorfforaethol ar set lawnach o fesurau perfformiad ar gyfer tipio anghyfreithlon, gan gynnwys nifer y digwyddiadau, er mwyn galluogi uwch-swyddogion ac Aelodau i oruchwylio'r broblem yn fwy effeithiol ac i sbarduno gwelliant.

[2] CIPFA, Teckal—The Basics Explained, Mehefin 2016

**Argymhellion o’n hadroddiad yn 2021 a’n canfyddiadau o’r adolygiad dilynol hwn**

**Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**

- Mae’r Cyngor wedi datblygu set lawnach o fesurau perfformiad tipio anghyfreithlon ar gyfer ei Gynllun Cyflawni Is-adrannol 2024–25. Mae’r mesurau hyn yn cynnwys cyflawni lleihad o 25% yn nifer y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon erbyn mis Mawrth 2025.
- Mae’r Cyngor yn newid y platfform digidol a ddefnyddir ganddo i gofnodi ei wybodaeth tipio anghyfreithlon. Mae’r Cyngor yn ceisio gwella cywirdeb y data a gofnodir.
- Mae’r Cyngor yn cydweithredu gyda Cadwch Gymru’n Daclus drwy brosiect o’r enw Caru Sir Gâr. Mae Caru Sir Gâr yn canolbwyntio ar effeithiau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon. Adroddir gweithredoedd Caru Sir Gâr i’r Cabinet a’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Mae’r Cyngor yn goruchwylio’n well y materion sy’n ymwneud â thipio anghyfreithlon.

**Argymhelliad 7—Wrth gwblhau’r strategaeth wastraff, dylai’r Cyngor sicrhau:**

- bod holl elfennau yr ‘hierarchaeth wastraff’, gan gynnwys ataliaeth, yn cael eu hystyried.
- ei fod yn integreiddio’r strategaeth â’i brosiectau a’i gynlluniau cysylltiedig eraill e.e. adfywio, gorfodi, tipio anghyfreithlon;
- bod ganddo gynlluniau clir a chynaliadwy ar gyfer ariannu’r strategaeth (gan gynnwys cynlluniau wrth gefn pe na fyddai cyllid Llywodraeth Cymru ar gael);
- ei fod yn neilltuo digon o amser i ymgynghori â’r cyhoedd ar ei newidiadau arfaethedig i drefniadau casglu gwastraff; a
- ei fod yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth ymgysylltu sy’n canolbwyntio ar y newid ymddygiadol sydd ei angen i lansio ei strategaeth newydd ac i’r cyhoedd ei mabwysiadu yn llwyddiannus (model casglu Glasbrint Llywodraeth Cymru).

**Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**

- Mae Strategaeth Wastraff y Cyngor yn cynnwys cyfeirio at yr economi gylchol a’r angen i feddwl y tu hwnt i darged ailgylchu o 70%. Mae’r Strategaeth yn cydnabod yr angen i symud at fod yn ddiwastraff erbyn 2050 ac i symud deunyddiau ymhellach i fyny’r hierarchaeth wastraff. Mae’n cynnwys enghreifftiau o ble mae’r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth a ble mae’n cefnogi rhwydweithiau cymunedol i gyflawni prosiectau economi cylchol. Hefyd, mae’r Strategaeth bellach yn cysylltu â chynlluniau eraill y Cyngor sy’n gysylltiedig â gwastraff.

**Argymhellion o'n hadroddiad yn 2021 a'n canfyddiadau o'r adolygiad dilynol hwn**

- Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ei symudiad i'r model Casglu Gwastraff Glasbrint. Mae'r Cyngor wedi datblygu costau ar gyfer y model hwn a chyflwynodd ei gynigion gerbron y Cabinet ar 29 Gorffennaf 2024. Mae'r Cyngor wedi sicrhau Cyllid Cymunedau Cynaliadwy a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r cyllid i ddatblygu hyfforddiant, ymwybyddiaeth a phrosiectau sy'n gysylltiedig â gwastraff cynaliadwy a'r economi gylchol.
- Mae'r Strategaeth Wastraff yn nodi'r angen i ganolbwyntio ar newid ymddygiad cyhoeddus sylweddol. Gweithredodd y Cyngor gynllun cyfathrebu trylwyr ar gyfer ei newidiadau i'r gwasanaeth gwastraff ym mis Ionawr 2023. Mae'n bwriadu dilyn cynllun tebyg ar gyfer y newid i'r model Glasbrint llawn.
- Mae Strategaeth Wastraff y Cyngor bellach yn fwy cynhwysfawr ac yn darparu dull strategol cliriach o reoli ei hierarchaeth gwastraff yn y tymor hwy.

**Argymhelliad 8—Dylai'r Cyngor adolygu ei gynllun Busnes Adran yr Amgylchedd er mwyn sicrhau:**

- ei fod yn nodi camau atebol clir ar gyfer ei wasanaeth gwastraff, sy'n benodol, yn fesuradwy ac yn amserol; ac
- ei fod yn cynnwys mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu, ac sydd â thargedau clir a meini prawf llwyddiant.

**Canfyddiad—bodlonwyd yr argymhelliad**

- Cynhaliodd yr Is-adran Seilwaith Amgylcheddol dri gweithdy gyda'i rheolwyr busnes ar ddiwedd 2023. Nod y gweithdai hyn oedd llunio Cynllun Cyflawni Is-adrannol 2024–25.
- Roedd y trydydd gweithdy yn canolbwyntio ar adolygu'r mesurau perfformiad cyfredol, nodi mesurau newydd, a chytuno ar gamau gweithredu.
- Mae Cynllun Cyflawni Is-adrannol 2024–25 yn nodi'r camau gweithredu strategol a'r mesurau y bydd yr Is-adran yn eu defnyddio i gyflawni ei Hamcanion Llesiant, ei blaenoriaethau thematig a'i blaenoriaethau gwasanaethau.
- Mae Cynllun Cyflawni Is-adrannol 2024–25 yn cynnwys rhestr helaeth o gamau gweithredu a mesurau. Mae gan bob un ohonynt berchennog a nodir, swyddog cyfrifol a enwir, a dyddiad gorffen i weithredu fel targed. Amlygir mesurau yn y rhestr ac maent yn cynnwys targedau ar gyfer 2024–25 (e.e. llai na 25% o'r ailgylchu wedi ei halogi erbyn 31 Mawrth 2025; cyflawni perfformiad ailgylchu o 67.5% erbyn 2023–24 a 70% erbyn 2024–25; a'r nod yw cyflawni lleihad o 25% yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon ledled y sir erbyn 31 Mawrth 2025).
- Mae'r Cyngor wedi adolygu a chryfhau ei Gynllun Cyflawni Is-adrannol Seilwaith Amgylcheddol a fydd yn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion ar gyfer 2024–25.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.